**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 14-02 (Cofnodion)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **17 Hydref 2002**
**Amser** **9.00 – 12.30am**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog Datblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd |
| David Hobbs | ICM3 |
| Emyr Roberts | EPD |
| Ron Loveland | ISG |
| Francois Samuel | |
| Reg Kilpatrick | EPD 1 |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Graham Hawker | Prif Weithredwr, WDA |
| Sian Lloyd-Jones | WDA |
| Gareth Hall | WDA |
| Jake Chapman | Cynghorydd Arbenigol |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

John Grimes — Clerc
Sian Wilkins — Dirprwy Glerc

**Eitem 1:Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1.1 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei phartner yn berchen ar fusnes ymgynghori; Dafydd Wigley sy'n gyfarwyddwr ar gwmni bach ac yn gadeirydd yr SBARD; Mick Bates sy'n gyfarwyddwr busnes ffermio ac yn bartner mewn cwmni cydweithredol amaethyddol a Phil Williams sy'n gysylltiedig â chais am Amcan 1.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alison Halford a David Davies. Cymerodd Ian Davies le David Davies fel ei eilydd a bydd yn cymryd ei le cyn hir fel Aelod o'r Pwyllgor. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i David Davies am ei waith ar y PDE.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog Datblygu Economaidd gan gynnwys adroddiad ar hynt ei Adolygiad o Gymorth Busnes.**

**EDC 14-02 (p1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf a amgaeir fel atodiad i'w adroddiad.

2.2 Cafwyd awgrym bod adroddiad y Gweinidog wedi gor-ganolbwyntio ar y newyddion da ac er na ellid gwadu bod ffigurau cyflogaeth Cymru gyfan wedi gwella, nid oedd ei adroddiad yn cydnabod y sefyllfa fel ag y mae yn y Gorllewin. Mae'r ardal hon wedi colli mwy o swyddi yn y 4 mis diwethaf nag a gollwyd yn sgil Corus yn y De-Ddwyrain a gwnaed cymariaethau â'r tasglu a'r cymorth ariannol gafodd eu darparu yng Nghasnewydd a Glyn Ebwy yn sgil colli'r swyddi hynny. Cafwyd cwestiynau gan yr Aelodau hefyd am hynt yr ymdrechion i gael swyddi i ganolfan alwadau Cleddau Bridge ac awgrymwyd bod gan y Gweinidog agwedd wahanol at helpu datblygiad economaidd y De Ddwyrain.

2.3 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gresynu'n fawr y ffordd yr oedd Dewhirst wedi tynunu'n ôl o Aberteifi gyda cholli 325 o swyddi a chadarnhaodd na fu unrhyw drafod rhwng y cwmni a Llywodraeth y Cynulliad. Roeadd yr ardal hefyd yn wynebu colli 200 o swyddi o Elizabeth the Chef yn Aberyswyth. Roedd hyn i'w gyferbynnu â'r sefyllfa gyda Corus lle roedd y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol wedi cael 12 mis i baratoi ar gyfer y colledion. Cytunodd y Gweinidog bod lefelau diweithdra ac anweithgarwch yn y Gorllewin a'r Cymoedd yn gymharol uchel. Er hynny mae diweithdra yn cwympo'n gynt yno ac mae enillion yn codi'n gynt yn y Gorllewin nag mewn ardaloedd eraill. Dywedodd bod trafodaethau ar lefel uchel yn parhau gyda nifer o gyrff i

ddod â swyddi newydd i Gleddau Bridge. Er na allai fanylu, roedd yn ffyddiog y byddai un neu fwy o gwmnïau'n symud i'r ardal. Ychwanegodd ei fod yn defnyddio pob cyfrwng posibl trwy Amcan 1, RSA a'r AIG i ddenu swyddi newydd i'r Cymoedd ac i wella ansawdd bywyd eu trigolion.

2.4 Er bod yr arian sydd wedi'i gynnig o dan Grant Buddsoddi'r Cynulliad yn fwy na'r hyn sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer yn y gyllideb, cadarnhaodd y Gweinidog bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn ymateb i'r galw. Ysgwyddir unrhyw daliadau ychwanegol sy'n fwy na'r hyn sydd yn y gyllideb trwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn.

2.5 Holwyd y Gweinidog gan yr aelodau ynghylch y cyfeiriad yn ei adroddiad at le Cymru yn y byd a sut yr oedd yn rhannu'r rôl hon â'r Gweinidog Datblygu Gwledig a Chymru Dramor. Dywedodd y Gweinidog bod yr asiantaethau economaidd sy'n gweithio yn y maes hwn, fel y WDA/WTI/WTB yn dod o fewn ei gylch gwaith ef, er bod cyd-gyfrifoldebau amlwg rhwng y Gweinidogion o ran gwneud y gorau o bresenoldeb yr asiantaethau hyn dramor i godi proffil Cymru yn y byd.

2.6 Gofynnodd yr aelodau pa gamau yr oedd y Gweinidog wedi'u cymryd i adolygu ei bolisïau yn wyneb y ffaith bod y Trysorlys wedi gorfod adolygu ei ragolygon ynghylch economi Prydain am i lawr. Dywedodd y Gweinidog bod y mesurau perfformiad cymharol yn Cymru'n Ennill yn parhau mor berthnasol ag erioed ac nad oes angen eu hadolygu er gwaetha rhagolygon y Canghellor ynghylch economi'r DU. Nid yw'n gweld fod angen newid ei bolisïau.

2.7 Awgrymwyd nad oedd y targedau ar gyfer band eang yn adroddiad y Gweinidog yn ddigon uchelgeisiol o ystyried y buddsoddiad o £100m. Dywedodd y Gweinidog bod y gyllideb yn cynnwys elfen i lenwi'r bylchau na fydd y sector preifat yn gallu eu darparu. Dywedodd iddo ddilyn trywydd 'technoleg niwtral' a'i bod yn bwysig gweithio gyda'r Sector Preifat ac Awdurdodau Lleol i ddarparu band eang i gymunedau. Roedd yr aelodau'n awyddus i edrych ar bolisïau'r Gweinidog ar ddarparu band llydan yn fanylach a chytunodd y Cadeirydd i'w caniatau i graffu arnynt yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref. **[Gweithredu:Clerc]**

2.8 Gofynnodd Aelod beth allai Canolfannau Rhyngwladol Cymru ei roi nad sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan yr asiantaethau sydd eisoes yn gweithio dramor. Gofynnodd beth yw'r llinyn mesur wrth ddewis lleoliadau'r Canolfannau a sut y byddwn ar ein hennill o rentu swyddfeydd mewn adeiladau drud fel y Chrysler Building yn Efrog Newydd. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig codi proffil Cymru dramor a bod y lleoliadau wedi'u dewis ar sail dadansoddiad o'r farchnad. Ym mhob achos, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda llysgenadaethau a swyddi FCO dramor. Mae America'n farchnad anferth i Gymru o safbwynt busnes a thwristiaeth a ffordd effeithiol o ddefnyddio adnoddau oedd crynhoi'r asiantaethau sy'n gweithio yn y meysydd hyn mewn un lle. Y farchnad fydd yn penderfynu ar leoliad canolfannau yn y dyfodol.

2.9 Roedd rhai aelodau'n teimlo bod gwir angen cynyddu proffil Cymru dramor trwy Lysgenadaethau Prydain a chadarnhaodd y Gweinidog iddo drafod hyn gyda Llysgennad Prydain yn Washington yn ystod taith ddiweddar i UDA.

2.10 Mae'r cynnydd diweddar ym mhremiymau yswiriant wedi cael effaith andwyol, yn enwedig ar fusnesau bach yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog bod Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ac wedi cael cyfarfodydd â'r DWP, y Trysorlys a'r DTI ar y pwnc.

2.11 Gofynnodd aelodau a oedd Gweinidog yr Amgylchedd wedi trafod materion cynllunio sy'n effeithio ar ddatblygu economaidd gyda'r Gweinidog Datblygu Economaidd. Hyn wedi iddi dynnu gwrthwynebiad i gais cynllunio i godi stiwdio ffilm ger Penybont yn ôl. Dywedodd nad oedd gofyn ymgynghori ag ef fel rhan o'r broses gynllunio.

**Adroddiad ar hynt yr Adolygiad o Gymorth Busnes.**

**EDC 14-02(p2)**

2.12 Ymunodd cynrychiolwyr o'r WDA â'r Gweinidog ar gyfer y cyntaf o'i adroddiadau chwemisol rheolaidd ar ddatblygiadau yn sgil trosglwyddo'r cyfrifoldebau am Gyswllt Busnes i'r WDA.

2.13 Dywedodd aelodau nad yw'r canolfannau wedi'u gwasgaru'n wastad trwy Gymru ac roedd un swyddfa'n gwasanaethu poblogaeth o 23,000 tra bod un arall yn gwasanaethu 300,000. Roeddynt yn teimlo y byddai cael canolfannau o safon uchel iawn i wasanaethu ardal eang yn syniad gwell a holwyd hefyd pam fod dwy ganolfan mewn trefi fel Wrecsam a'r Rhyl. Gofynnwyd hefyd ai un ganolfan alwadau i wasanaethu Cymru gyfan oedd y dewis gorau ac a oes yn rhaid wrth wybodaeth am batrymau rhanbarthol i allu rhoi gwasanaeth effeithiol.

2.14 Dywedodd y WDA iddynt fynnu bod hygyrchedd yn un o'r prif egwyddorion yn y tendrau ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y swyddfeydd i gyd yn cynnig gwasanaeth o'r un safon gydag union yr un hyfforddiant i'r holl staff. Byddant yn monitro lefelau boddhad cwsmeriaid. Os oedd dwy ganolfan mewn tref, gwnaed hynny ar awgrym y darparwr ac fel arfer roedd un yn brif ganolfan a'r llall yn is-ganolfan.

2.15 Mynegwyd peth gofid mai awdurdodau lleol, gan fwyaf, oedd wedi ennill contractau a dywedodd aelodau ei bod yn bwysig nad oedd cwsmeriaid yn teimlo mai'r cyfan oedd wedi digwydd oedd bod y gwasanaeth dan enw newydd ond gyda'r un bobl ag o'r blaen yn ei ddarparu. Dywedodd y WDA bod staff y canolfannau wedi'u cyflogi'n unswydd i ddarparu'r gwasanaeth ac nad oes ganddynt ddyletswyddau eraill o fewn yr ALl. Bu'n rhaid i bob darparwr ddangos eu bod yn cydweithio â phartneriaid fel rhan o'r broses dendro. Roeddynt yn cydnabod bod gofyn i weithwyr y porth weithio gydag asiantaethau eraill fel ELWa ond yn y

tymor byr, na fyddai staff y WDA yn cael trafod telerau gydag asiantaethau eraill ar ran y cwsmer.

2.16 Gofynnodd un aelod am siart syml i ddangos y berthynas rhwng yr amrywiol gyrff a'r cynlluniau sy'n bod i helpu busnesau. Bydd swyddogion yn ystyried gyda'r Clerc y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

2.17 I gloi, dywedodd y WDA y bu'n orchwyl anferth ac iddynt roi mwy o ffocws ar reoli cyfrifon tra'n ceisio cynnal lefel y gwasanaeth, gwneud y newidiadau angenrheidiol a chanolbwyntio ar uchelgeisiau tymor hir y gwasanaeth.

**Eitem 3: Adolygiad hanner blwyddyn y WDA**

**EDC 14-02(p3)**

**EDC 14-02(p3a)**

3.1 Graham Hawker gyflwynodd yr adroddiad gan ddweud bod y ffigurau'n ymdrin â chyfnod o 5 mis ac yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn y cylch gwaith a'r cynllun busnes. Atgoffodd yr aelodau bod y ffigurau'n adlewyrchu'r meysydd hynny yn yr economi yr oedd y WDA yn gallu dylanwadu arnynt ac nad oeddynt yn berthnasol i bob swydd yng Nghymru. Rhestrodd hefyd y cynnydd yn y cyfrifoldebau a roddwyd ar y WDA yn ddiweddar.

3.2 Sylwodd yr aelodau bod Cyllid Cymru wedi tangyflawni o'u cymharu â'u targedau, a chafwyd tystiolaeth anecdotaidd ei bod yn anodd delio â nhw a'u bod yn hir yn prosesu ceisiadau. Dywedodd y WDA i Gyllid Cymru gael dechrau araf ond bod pethau wedi gwella ers llynedd. Bydd yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau wastad yn bryder ond mae gofyn bod yn ofalus, felly mae'r broses yn aml yn mynd i fod yn hir. Mae'r drefn ymgeisio yn seiliedig ar systemau'r sector bancio.

3.3 Roedd aelodau'n ofidus nad yw Cyllid Cymru i bob golwg wedi cyfrannu at y meicro-sector. Roedd y Pwyllgor ar ddeall y byddai'n llenwi bylchau yn y sector cyllid busnes yn hytrach na dyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu. Dywedodd Graham Hawker eu bod wrthi'n adolygu'i gyfraniad yn y meicro-sector ac iddo wneud cyfraniad llwyddiannus mewn sectorau eraill.

3.4 Cadarnhaodd Graham Hawker i'r WDA gadw at eu targedau rhanbarthol mewnol eu hunain, er na fu iddynt ddiystyru targedau rhanbarthol yr adroddiad yn llwyr. Ofnai y deuent, o'u cyhoeddi, yn rhy haearnaidd ac y byddai'n anodd bod yn hyblyg.

3.5 Cadarnhaodd hefyd nad oedd gan y WDA darged penodol ar gyfer gwerthu eiddo ond y bu ganddo darged derbyniadau a oedd yn cynnwys gwerthu eiddo. Er bod prinder eiddo mewn rhannau o Gymru, dylai unrhyw gynigion i godi adeiladau newydd ymateb i alw'r farchnad.

3.6 Roedd rhai aelodau'n bryderus ynghylch lefel y gweithgarwch i farchnata rhannau o Gymru gan ddweud bod bylchau i'w gweld yn ymddangos, hyd yn oed yn ardal Amcan 1.

3.7 Roedd aelodau'n bryderus nad oedd syniad y WDA am Is-adran Busnesau Bach wedi'i droi'n realiti. Dywedodd y WDA i'r cynnig i sefydlu is-adran busnesau bach gael ei gyhoeddi cyn adolygu'r cymorth i fusnesau ac nad oeddynt bellach yn credu taw hynny o reidrwydd fyddai'r ffordd orau ymlaen. Roeddynt yn ystyried sefydlu grwp bychan o fewn is-adran Sian Lloyd Jones i drefnu gweithgareddau cymorth i fusnesau. Gofynnodd yr aelodau am gael adroddiadau ar hyn.

3.8 Mynegwyd peth gofid mai ychydig iawn o arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil a datblygu. Dywedodd y WDA nad oeddynt am dargedu ymchwil a datblygu yn benodol a'u bod yn awyddus i wneud y gorau o ffrwyth ymchwil prifysgolion. Gwnaed y pwynt bod cwmniau mawr yn tueddu i leoli eu cyfleusterau ymchwil a datblygu yn eu prif swyddfeydd ac ychydig ohonynt sy'n bod yng Nghymru.

**Eitem 4: Cynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb**

**EDC 14-02(p4)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei bapur gan esbonio ei brif elfennau a oedd yn adlewyrchu ei flaenoriaethau a blaenoriaethau'r Pwyllgor. Cyfeiriodd at yr arian ychwanegol i'r cronfeydd strwythurol, y £15m yn ychwanegol i ddatblygu TG Band Eang a'r Cynllun Gweithredu Blaengaredd y mae ei ffurf derfynol ar fin cael sêl bendith ac a fydd yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor cyn hir. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu bod y Pwyllgor yn cael ei drafod yn fuan. Dywedodd y Gweinidog mai 6 Tachwedd bellach fydd dyddiad y gyllideb a bod ar y Cabinet angen barn y Pwyllgor mewn pryd ar gyfer y gyllideb derfynol a fydd yn cael ei chyhoeddi ddechrau wythnos 28 Hydref.

4.2 Nododd yr aelodau ymrwymiad y Gweinidog Cyllid na chaiff unrhyw brosiect y cymeradwywyd arian iddo o'r Cronfeydd Strwythurol ei golli oherwydd diffyg PES neu arian cyfatebol. Mynegwyd pryder nad yw nifer y prosiectau sydd ar hyn o bryd wedi'u cymeradwyo yn ddigon uchel i osgoi datymrwymo arian yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylid pwyso ar WEFO i ragymrwymo'r rhaglen ac ystyried gorymrwymo. Pe gwneid hynny, efallai y byddai gofyn i'r Cynulliad warantu'r ymrwymiad hwnnw. Dywedodd y Cadeirydd y gellid trafod hyn yn fanylach yn y cyfarfod nesaf pan fydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad chwarterol WEFO.

4.3 Nododd yr aelodau bod y ffigurau'n dangos bod y Cynulliad yn derbyn mwy o arian o'r Cronfeydd Strwythurol nag y gall fformwla Barnett ei gefnogi a'u bod yn teimlo ei bod braidd yn gamarweiniol eu cynnwys yn y llinell sylfaen.

4.4 Nododd yr aelodau y bu cynnydd o 8% yn MEG Datblygu Economaidd, y cynnydd lleiaf i unrhyw MEG. Pe diystyrid arian Ewropeaidd, ni fyddai unrhyw gynnydd o gwbl. Mynegwyd y farn bod y rhan fwyaf o wariant y Cynulliad yn mynd ar raglenni i liniaru effeithiau methiant economaidd. Byddai'n well buddsoddi yn y rhaglenni sydd eu hangen i gynnal twf economaidd a thrwy hynny lleihau'r galw ar raglenni eraill. Serch hynny, cydnabuwyd bod rhai rhaglenni cymdeithasol yn cyfrannu at ddatblygu'r economi trwy helpu pobl i ymuno â'r farchnad lafur.

4.5 Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog bod yn rhaid edrych ar fuddsoddi mewn datblygu economaidd o ogwydd ehangach gan fod rhaglenni eraill e.e. hybu trafnidiaeth, hyfforddiant a gofal plant, yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu economi gref a chynaliadwy, ac nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y MEG Datblygu Economaidd. Er yn cydnabod hyn, mynegodd yr aelodau eu pryder mai ychydig iawn o reolaeth sydd gan y Pwyllgor ar y rhaglenni eraill hyn ac nad ydynt yn cael holi'r Gweinidogion sy'n gyfrifol amdanynt. Pryder arbennig oedd y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth sy'n cael ei rhedeg gan ELWa. Efallai y byddai'n fwy priodol i'r gronfa ddod o dan adain y Gweinidog Datblygu Economaidd a'r PDE.

4.6 Gwnaed y pwynt bod angen edrych tua'r cyfnod pan fydd y Cronfeydd Strwythurol wedi dod i ben a gofalu bod Cymru'n datblygu i'r graddau fel na fydd angen cymorth allanol arni i helpu ei datblygiad economaidd.

4.7 Cyfeiriwyd at y cynnydd a fu yn yr arian i Gyrff a Noddir gan y Cynulliad, sydd prin yn cadw i fyny â chwyddiant. Roedd aelodau'n poeni nad oedd arian wedi'i neilltuo ar gyfer cost ychwanegol cyfraniadau yswiriant gwladol a fydd yn codi yn y gwanwyn. Dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Cyllid wrthi'n trafod ag aelodau eraill y Cabinet am gostau rhedeg y Cyrff a Noddir a'i bod yn bwriadu ymdrin â hyn yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol.

4.8 Gofynnwyd cwestiwn am reolau Datganiad Cyllido'r DU a'r ffactor cymharol ar gyfer twristiaeth. Dywedodd swyddogion bod hyn yn rhannol yn fater i Awdurdod Twristiaeth Prydain (sy'n rhaglen Brydeinig) ac y deellir bod cymhwysiad yn cael ei wneud fan arall ar gyfer y rhaglen Seisnig gymharol. Gwnaethant gytuno i baratoi nodyn ar hyn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

**Eitem 5: Adolygiad Ynni - Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar Ynni Adnewyddadwy**

**EDC 14-02(p5)**

5.1  Wrth gyflwyno crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad, dywedodd y Cadeirydd mai'r cwestiwn pwysicaf oedd a yw'r Pwyllgor am bennu targed ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac os ydyw, ar ba lefel.

5.2  Roedd yr aelodau o'r farn bod y papur yn cynnig darlen teg a chytbwys o'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad.

5.3  Roedd yr aelodau'n gytun ei bod yn bwysig pennu lefel y dylai Cymru anelu ato ond y dylid ei ystyried fwy fel 'meincnod' na tharged. Teimlwyd y dylid pennu ffigur realistig a chyraeddadwy, yn seiliedig ar y cynlluniau sydd ar y gweill, ac i'w ystyried felly fel y nod lleiaf. Cytunodd yr aelodau y byddai 4TWh ar gyfer 2010 yn briodol.

5.4  Er mwyn gallu cwrdd â'r targed, mynegwyd y farn bod yn rhaid datrys problem yr oedi yn y system gynllunio.

5.5  Cafwyd trafodaeth ar effaith ynni'r gwynt ar dwristiaeth. Nododd yr aelodau nad oes unrhyw dystiolaeth bod tyrbinau gwynt yn cael effaith ddrwg ar dwristiaeth - ond dywedwyd nad oedd hyn ynddo'i hun yn brawf nad oeddynt yn cael unrhyw effaith.

5.6  Nodwyd y dylai fod yn bosib lleoli'r twrbinau fyddai eu hangen ar gyfer y lefel a bennwyd heb amharu ar ardaloedd twristiaeth a SoDdGAoedd ac ati.

5.7  Pa darged bynnag a bennid, cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig llunio mecanwaith i fonitro a chofnodi perfformiad at ei gyflawni.

5.8  Wrth bennu meincnod, byddai'n werthfawr pe bai'r adroddiad yn dangos beth fyddai'r lefel hwnnw o gynhyrchu yn ei olygu mewn gwirionedd.

**Eitem 6: Adolygiad Ynni - adroddiad drafft ar Effeithiolrwydd Ynni (gan gynnwys CHP)**

**EDC 14-02(p6)**

6.1 Roedd yr aelodau ar y cyfan yn cymeradwyo'r adroddiad drafft. Awgrymwyd bod 3 math o argymhelliad:

- y rheini ar lefel y DU y gallai Cymru ond cynnig sylwadau arnynt;
- y rheini sy'n gofyn am weithredu ar lefel Cymru ond nad oes gan y Cynulliad y pwerau angenrheidiol i wneud hynny. Efallai bod hwn yn rhywbeth y gellid ei drafod gyda Chomisiwn Richard;
- pethau y gellid eu gwneud nawr.

6.2  Yn wahanol i'r adroddiad ar ynni adnewyddadwy, nodwyd y byddai llawer o'r argymhellion yn perthyn i'r ddau gategori cyntaf.

6.3  Cymeradwywyd byrdwn yr adroddiad a'r ffaith y dylai Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn esiampl i eraill o ran defnyddio ynni'n effeithiol. Dylid pwyso ar awdurdodau lleol a chyrff eraill hefyd i ysgwyddo'r rôl honno.

6.4  Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd rhoi cymhellion i bobl fuddsoddi mewn mesurau i arbed ynni ac y dylent fod ar gael i bawb, nid i'r gronfa ynni yn unig. Barnwyd na cheid fawr o gynnydd mewn arbedion ynni domestig hyd y gwneid hynny.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 13-02 Cofnodion (Drafft)**

**EDC 14-02 Camau heb eu cymryd eto**

7.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**